# Gweithgareddau

1. Ticiwch **gywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

| | | **cywir** | **anghywir** |
|---|---|---|---|
| i. | Mae Giovanni’s yn Llanaber ers blwyddyn. | | |
| ii. | Aeth chwech o bobl gyda’i gilydd i fwyta yn Giovanni’s. | | |
| iii. | Mae lle i 50 o bobl yn y bwyty. | | |
| iv. | Mae cerddoriaeth Eidalaidd i’w chlywed yn y cefndir. | | |
| v. | Mae’r fwydlen yn un syml. | | |
| vi. | Roedd y bara’n sych ac yn hen. | | |
| vii. | Doedd yr adolygydd ddim yn hoffi blas saws y *Linguine Marinara.* | | |
| viii. | Doedd neb eisiau pwdin. | | |
| ix. | Dydy’r adolygydd ddim yn meddwl bod y bwyty’n rhy ddrud. | | |

2. Edrychwch ar yr adolygiad eto, a chopïwch ymadroddion neu frawddegau sy'n rhoi'r wybodaeth hon:

   a) Maint y bwyty

      ..........................................................................................................................

   b) Sut mae'r bwyty wedi'i addurno

      ..........................................................................................................................

   c) Yr awyrgylch

      ..........................................................................................................................

   d) Y fwydlen

      ..........................................................................................................................

   e) Barn pawb am y bwyd

      ..........................................................................................................................

3. Beth yw ystyr yr ymadroddion hyn:

i) ***Cefais siom o'r ochr orau.***

a) Cafodd yr adolygydd ei siomi gan y bwyd. ☐

b) Doedd yr adolygydd ddim yn disgwyl bwyd da, a doedd e ddim yn dda chwaith. ☐

c) Doedd yr adolygydd ddim yn disgwyl bwyd da, ond roedd yn dda. ☐

ii) ***Roedd boliau pawb yn dynn.***

a) Roedd pawb wedi bwyta mwy na digon. ☐

b) Doedd neb wedi bwyta digon o fwyd. ☐

c) Roedd pawb wedi diflasu ar y bwyd. ☐

iii) ***tri chwrs swmpus***

a) Tri chwrs heb ddigon o fwyd. ☐

b) Tri chwrs gyda digon o fwyd. ☐

c) Tri chwrs gyda bwyd gweddol. ☐

4. Chwiliwch am frawddegau ac ymadroddion sy'n canmol y lle a'r bwyd. Dyma un i ddechrau:

i. Mae'r awyrgylch yn hamddenol braf.

ii. ........................................................................................................................

iii. ........................................................................................................................

iv. ........................................................................................................................

v. ........................................................................................................................

5. Beth yw eich barn am:

- yr adolygiad ei hun. Ydy e'n gwneud i chi eisiau mynd i *Giovanni's*?
- y lluniau yn yr adolygiad? Ydyn nhw'n ychwanegu ato?

Mae'r adolygiad yn ceisio perswadio'r darllenydd fod *Giovanni's* yn lle bwyta da. Sut mae'n gwneud hyn?

6. Edrychwch eto ar y frawddeg hon: *Roedd (y tiramisu) yn baradwys mewn powlen.*

Beth am greu eich ymadroddion eich hun? Os ydych chi eisiau bod yn negyddol, meddyliwch am y gwrthwyneb i 'paradwys' a 'nefoedd'!

- Roedd y ....................................... yn ....................................... ar blât.
- Roedd y ........................................ yn ....................................... mewn cwpan.
- Roedd y ....................................... yn .......................................... mewn powlen.

7. Faint fyddai'n ei gostio i'ch dosbarth chi fynd i Giovanni's a chael:

i) tri chwrs? ..................................................................

ii) dau gwrs? ..................................................................

Faint yn rhagor fyddai **diod £1.50 yr un** yn ei hychwanegu at y biliau hyn? ............................

8. Ysgrifennwch adolygiad byr o unrhyw bryd o fwyd rydych chi wedi'i fwyta'n ddiweddar – does dim rhaid iddo fod mewn bwyty.

   Defnyddiwch strwythur yr adolygiad a rhai o'r ymadroddion sydd yno, gan addasu fel y gwelwch yn dda. Gallwch fod yn ddoniol, yn grafog, yn feirniadol neu'n ganmoliaethus. Hynny yw, does dim rhaid i chi ganmol y pryd bwyd – gallech fod yn negyddol iawn pe dymunech!

   Dyma rai syniadau:
   - ffreutur yr ysgol
   - eich McDonalds lleol
   - swper gyda'r teulu gartref

   Gallech sôn am y pethau hyn:
   - Faint y bwyty/yr ystafell
   - Yr awyrgylch – yr addurniadau, y gerddoriaeth
   - Safon y gweini
   - Y bwyd – y cyflwyniad, y blas ac ati
   - Y pris – oedd y pryd yn werth yr arian?
   - A fyddech chi'n argymell y lle i ffrindiau?

**Atebion**

1.

| | | cywir | anghywir |
|---|---|---|---|
| i. | Mae Giovanni's yn Llanaber ers blwyddyn. | | ✓ |
| ii. | Aeth chwech o bobl gyda'i gilydd i fwyta yn Giovanni's. | | ✓ |
| iii. | Mae lle i 50 o bobl yn y bwyty. | | ✓ |
| iv. | Mae cerddoriaeth Eidalaidd i'w chlywed yn y cefndir. | ✓ | |
| v. | Mae'r fwydlen yn un syml. | ✓ | |
| vi. | Roedd y bara'n sych ac yn hen. | | ✓ |
| vii. | Doedd yr adolygydd ddim yn hoffi blas saws y *Linguine Marinara.* | | ✓ |
| viii. | Doedd neb eisiau pwdin. | | ✓ |
| ix. | Dydy'r adolygydd ddim yn meddwl bod y bwyty'n rhy ddrud. | ✓ | |

3.
i) – c);
ii) – a);
iii) – b)